**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Sir Fynwy Canolog**
**Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mercher, 11eg Medi, 2019 at 11.00 am**

## PRESENT:

Cynghorydd Sirol: P. Clarke, R. Edwards, R.John, P. Jones, R.Roden, B. Strong, J.Treharne

Cynghorydd Sirol J.Pratt

## OFFICERS IN ATTENDANCE:

| | |
|---|---|
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Graham Kinsella | Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffordd |
| Mark Hand | Head of Place-making, Housing, Highways and Flood |

## APOLOGIES:

Cynghorydd Sirol: D. Blakebrough and V. Smith

1. **Ethol Cadeirydd.**

Enwebwyd y Cynghorydd Sirol J. Treharne ac fe'i hetholwyd yn Gadeirydd.

2. **Penodi Is-gadeirydd**

Etholwyd Cynghorydd Sirol M. Feakins fel Is-gadeirydd

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

4. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Byddai materion ar gyfer y Fforwm Agored i'r Cyhoedd yn cael sylw o dan yr eitem berthnasol ar yr agenda.

5. **Derbyn data o Grŵp Gostwng Terfyn Cyflymder Buckholt.**

Croesawyd Gail Brehany a oedd yn bresennol ar ran Grŵp Lleihau Terfyn Cyflymder Buckholt.

Gyda chymorth cyflwyniad, tynnodd Ms. Brehany sylw at bryderon y preswylwyr a gofynnodd i'r Cyngor ystyried gostwng y terfyn cyflymder drwy Buckholt ar yr A466.

Clywsom nad hwn oedd y cais cyntaf i ostwng y terfyn cyflymder, ac mai dyma'r trydydd tro i'r mater gael ei godi'n swyddogol mewn gwirionedd. Gofynnwyd iddo beidio â chael ei anwybyddu y tro hwn ac yn cael sylw.

Roedd y pwyntiau a amlygwyd yn cynnwys:

- Mae terfyn 40 m.y.a. yn gyflymder peryglus ar gyfer y ffordd ac roedd manylion y dystiolaeth a ddarparwyd gan y preswylwyr yn fanwl.
- Gall arwyddion fod yn gamarweiniol ac yn annarllenadwy.
- Mae'r ffordd yn heriol gyda gwelededd cyfyngedig, troeon dall a risgiau i fywyd gwyllt, cerddwyr a beicwyr.
- Mae preswylwyr wedi sôn am ddifrod i eiddo.
- Ni lynir wrth y cyfyngiadau ar gerbydau mawr, trwm.
- Nid yw gwrychoedd yn cael eu trin gan fod y risg yn rhy fawr i sefyll ar y ffordd i wneud y gwaith.
- Mae tywydd gwael yn cynyddu'r peryglon.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms. Brehany am y cyflwyniad gan nodi ei fod yn amlwg yn fater diogelwch ar y ffyrdd. Gwahoddwyd Aelodau i wneud sylwadau.

Roedd y Cynghorydd Roden yn cydnabod y ffordd beryglus, gan ychwanegu'r peryglon i'r nifer fawr o feicwyr sy'n defnyddio'r llwybr. Gofynnodd am i'r Adran Briffyrdd asesu'r sefyllfa a chysylltu â thrigolion.

Cytunodd yr Aelodau ar effeithiolrwydd arwyddion cyflymder sy'n fflachio.

Cytunodd y Rheolwr Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd i ystyried y ceisiadau a byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor

6. **<u>Trafod a oes angen croesfan ddiogelwch ar Heol Llanwarw / gwaelod y Ffordd Gyswllt - cais gan Gyngor Tref Trefynwy.</u>**

Amlygwyd pryderon ynglŷn â chroesfan nad yw dan reolaeth ar ben isaf y Ffordd Gyswllt, pellter byr oddi wrth y gyffordd a'r arwydd cyflymder. Nid ystyriwyd bod y groesfan yn ddiogel nac yn ddigonol, gan nad oedd digon o bellter i gerbydau arafu.

Gwnaed awgrym y dylai'r ffordd gyswllt gyfan fod yn 30 m.y.a. o bosibl.

Eglurodd y Rheolwr Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd fod yr adran prosiect yn edrych ar yr ardal ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o gyflwyno gwelliannau.

Ychwanegodd Pennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd fod y datblygiad newydd yn cynnwys llwybr troed newydd, ac y byddai'n darparu cyswllt amgen. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch goleuo ac arwyneb y llwybr.

Cynghorodd swyddogion fod angen cydnabyddedig i ostwng y terfyn cyflymder, yn ogystal â pharhau i fod yn ystyriol o'r amgylchedd. Barnwyd bod 40 m.y.a. yn briodol.

O ran gwybodaeth, bydd y Rheolwr Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd yn rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru â'r Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau y dylid dod â rhagor o wybodaeth i'r cyfarfod nesaf.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Sir Fynwy Canolog Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mercher, 11eg Medi, 2019 at 11.00 am**

7. **Materion i'w trafod:**

**7.1. Gwasanaeth Bws 'Hopper' yn Overmonnow.**

Tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen a'r manteision o sefydlu Gwasanaeth Bws 'Hopper', fel sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd mewn ardaloedd eraill. Cadarnhaodd y Pennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd y gellir ceisio cyfraniadau cynllunio.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod hwn yn gais amserol o gofio bod y Cyngor wedi datgan Argyfwng Hinsawdd, ynghyd â'r angen i leihau teithio mewn ceir ac annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Cytunodd ar y manteision a byddai'n gofyn i swyddogion wneud y cais.

Roedd yr Aelodau hefyd yn gweld hyn fel ffordd o oresgyn problemau'n ymwneud â pharcio ceir yn y dref.

Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â'r Aelod Cabinet a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

**7.2. Bae Parcio i Bobl Anabl, Trefynwy.**

Cytunwyd gohirio'r eitem hon oherwydd ailddatblygu Sgwâr Agincourt.

**7.3. Y fainc a'r bwrdd picnic y tu allan i Dŷ Tafarn y 'Gatehouse' (ar gyfer defnydd pobl sy'n mynychu'r dafarn).**

Cafodd yr Aelodau ddarlun e-bost o'r mater. Roedd y Cynghorydd R Caffel o Gyngor Tref Trefynwy yn bresennol i dynnu sylw at bryderon y preswylwyr ynglŷn â'r byrddau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Dŷ Tafarn y 'Gatehouse' Roedd y byrddau'n achosi rhwystr ac wedi'u lleoli ar linellau melyn dwbl. Mae hyn yn arwain at fynediad cyfyngedig i'r rhai â sgwteri symudedd, a chadeiriau gwthio. Mae problem hefyd gyda gwydrau a sbwriel.

Cyflwynwyd cwynion yn flaenorol ond ar yr adeg y bu'r polisi Byrddau Masnachu yn cael ei adolygu.

Nododd y Cadeirydd fod cyfle i ddefnyddio'r ardd gwrw y tu cefn i'r dafarn.

Gofynnwyd cwestiynau pam yr angen am linellau melyn dwbl os nad oes mynediad i gerbydau.

Credwyd bod cyfleoedd ffotograffig yn cael eu difetha.

Cytunodd yr Aelodau bod angen egluro'r polisi.

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i drafod y mater ymhellach.

**7.4. Cerrig copa ar goll o hen bont Afon Mynwy.**

Dywedodd yr Aelodau mai CADW sy'n gyfrifol am y cerrig copa. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at CADW i ofyn am gyngor.

Awgrymwyd y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn drwy'r Cyngor Tref.

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Sir Fynwy Canolog Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mercher, 11eg Medi, 2019 at 11.00 am

### 8. Materion Ward.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sirol R. Edwards at faterion priffyrdd – diffyg atgyweiriadau a therfynau cyflymder. Colli casgliadau ailgylchu a thipio anghyfreithlon hefyd.

Dywedodd y Cynghorydd Sirol P. Clarke am lwyddiant parhaus y swyddfa bost newydd.

Nododd y Cynghorydd Sirol B. Strong lwyddiant yr ŵyl dros Ŵyl y Banc. Rhoddodd ganmoliaeth hefyd i Richard Drinkwater am lwyddiant Swyddfa'r Post.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sirol R. John at faterion diogelwch ar y ffyrdd ar y brif ffordd rhwng Rhaglan a Llanfihangel Troddi.

Nododd y Cynghorydd Sirol M. Feakins am lwyddiant y penwythnos agored yng Nghanolfan Hamdden Trefynwy, gan ychwanegu bod hwn yn ased gwerthfawr a gellid ymestyn y cyfle am ddiwrnodau am ddim.

### 9. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mai 2019 gan y Cadeirydd.

### 10. Y Cyfarfod Nesaf.

Cytunwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 15fed Ionawr 2019 am 10am.

**The meeting ended at 12.45 pm.**